University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# Strategaeth Ymgysylltu ar Gynaliadwyedd 2025/26 – 2026/27

Ystadau a Chyfleusterau

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur y ddogfen | Adolygu |
|---|---|---|---|
| F 1.0 | Ebrill 2023 | N Bradley | Ebrill 2025 |
| F 2.0 | Awst 2025 | L Willmott | Ebrill 2027 |

# Cyflwyniad

I wreiddio diwylliant o ymddygiad cynaliadwy ledled ein hystâd, mae Prifysgol De Cymru yn cydnabod yr angen i ymgysylltu'n llwyddiannus â staff a myfyrwyr i gyflawni ein targedau cynaliadwyedd tymor hirach a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Nid yw ein gwaith yn cael ei wneud ar ei ben ei hun, ac rydym yn dibynnu ar gefnogaeth a gweithredu gan ein holl randdeiliaid wrth i ni weithio tuag at ein nod o gyflawni Sero Net erbyn 2040.

Nod y ddogfen hon yw ffurfioli ein cynllun ymgysylltu i rymuso ein myfyrwyr, staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid i roi camau cadarnhaol ar waith i leihau eu heffaith amgylcheddol ac i alluogi newid.

**Amcanion**

- Ymgorffori diwylliant o ymddygiad cynaliadwy ledled ein Hystâd i gefnogi'r ymdrech i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- Integreiddio cynaliadwyedd fel elfen graidd o brosesau ymsefydlu myfyrwyr a staff.
- Cynyddu ymgysylltiad staff a myfyrwyr â mentrau, ymgyrchoedd a digwyddiadau cynaliadwyedd drwy amrywiol sianeli ymgysylltu.
- Cynyddu nifer aelodau a defnyddwyr gweithredol Ap Trowch PDC yn Wyrdd i gefnogi ymddygiad cynaliadwy.
- Cydweithio gydag Undeb y Myfyrwyr mewn ymdrech ar y cyd i wella cynaliadwyedd ar y campws.
- Adolygu cyfleoedd i integreiddio addysg ynghylch datblygu cynaliadwy yn y cwricwlwm.
- Ymgysylltu â Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd a Grwpiau Gweithredu i wella cynaliadwyedd ar y campws.

# Gweithgareddau sydd eisoes ar waith

### Pwyllgor Cynaliadwyedd

Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn darparu llywodraethu, cyfeiriad a chraffu ar ein gweithgareddau cynaliadwyedd ac o bryd i'w gilydd yn adolygu ac yn monitro cynnydd yn erbyn amcanion strategaeth Gynaliadwyedd y Brifysgol i sicrhau y cyflawnir gostyngiadau carbon yn barhaus. Mae hefyd yn ganolog i hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus mewn cynaliadwyedd trwy nodi a rhannu camau gweithredu a mentrau sy'n ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar draws y Brifysgol. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter ac yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur ac undeb y myfyrwyr.

### Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd

Mae'r Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd yn cynrychioli rhwydwaith o staff a myfyrwyr brwdfrydig ledled y brifysgol sy'n awgrymu syniadau, yn cynnal trafodaethau, ac yn cydweithio ar fentrau ledled PDC drwy gydol y flwyddyn. Maent yn arwain newid cadarnhaol ar gyfer cynaliadwyedd ledled y Brifysgol yn rhagweithiol ac yn cael eu cefnogi i gael effaith gadarnhaol mewn amrywiaeth o ffyrdd a all wneud gwahaniaeth go iawn.

## Grwpiau Ffocws Cynaliadwyedd

Er mwyn cyflawni ein nodau uchelgeisiol, mae'n hanfodol bod holl gymuned PDC yn cymryd rhan yn amcanion ehangach strategaeth sero net 2040. I gefnogi hyn, rydym wedi sefydlu Grwpiau Ffocws pwrpasol sydd â'r dasg o nodi prosiectau a'u rhoi ar waith mewn meysydd penodol a fydd yn sicrhau'r gostyngiadau carbon angenrheidiol.

Mae Grŵp Ffocws yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o PDC gan gynnwys academyddion, staff ymchwil a gwasanaethau proffesiynol a chorff y myfyrwyr. Cyflwynir cynnydd yn erbyn amcanion allweddol i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w adrodd wedyn wrth y Bwrdd Gweithredol ac mae'r grwpiau'n cael eu hwyluso gan y tîm Cynaliadwyedd sy'n helpu i gychwyn rhoi camau gweithredu ar waith ac yn rhoi cymorth yn ôl yr angen. Y Grwpiau Gweithredu sy'n weithredol ar hyn o bryd yw fel a ganlyn:

- Campysau ac Ynni
- Addysg ac Ymchwil
- Bwyd a Bioamrywiaeth
- Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi
- Teithio, Ailgylchu ac Ailddefnyddio

## Yr Ŵyl Groeso

Ffocws yr ŵyl groeso yw ymgysylltu â myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd i'r Brifysgol. Mae'r tymor cyntaf yn gyfle allweddol i ymgysylltu â myfyrwyr ar ein nodau cynaliadwyedd a hyrwyddo defnydd o ap Trowch PDC yn Wyrdd. Bydd yr ymgysylltu hwn ar ffurf stondinau dros dro lle bydd y Tîm Cynaliadwyedd yn bresennol i groesawu myfyrwyr, hyrwyddo ymgysylltiad ac ateb unrhyw gwestiynau.

## Cyfleoedd Gwirfoddoli

Rydym wedi datblygu rhaglen o gyfleoedd gwirfoddoli yn ein hardaloedd lleol ac maent yn cael eu rhoi ar ein gwefan er mwyn i fyfyrwyr a staff allu cymryd rhan ynddynt. Yn eu plith mae cyfleoedd gyda Sefydliad y Galon Prydain, canolfan Gardd Gymunedol y Ddôl a grŵp Afonydd Caerdydd. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n galed i gynyddu'r rhestr o gyfleoedd sydd ar gael, a bydd y wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd lle bo modd i gynnwys cyfleoedd ychwanegol a newydd.

## Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Nod y Brifysgol yw defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol drwy ei hadran gyfathrebu i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr a staff. Defnyddir postiadau i godi ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau a gynhelir gan PDC ar gynaliadwyedd a digwyddiadau sydd ar y gweill ac sy'n hyrwyddo gweithredu ar y cyd a chyfranogiad. Mae postiadau wedi'u targedu ar gyfer myfyrwyr (trwy Fywyd Preswyl) ar y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebir hefyd â staff trwy gylchlythyr wythnosol ar-lein sy'n cynnig y wybodaeth ddiweddaraf am straeon newyddion allweddol.

## Gwefan

Mae tudalennau gwe'r Tîm Cynaliadwyedd yn rhan o bresenoldeb ar-lein ehangach y Brifysgol. Mae'r wefan yn hyb canolog o gynnwys ac mae'n cynnwys gwybodaeth am bolisïau, perfformiad, ffyrdd o gymryd rhan, ac adnoddau i gefnogi ein prif gynulleidfaoedd targed. Mae'r wefan yn cael ei hailgynllunio ar hyn o bryd er mwyn iddi fod yn haws ei llywio, cael mwy o effaith, a chael cynnwys

gwell, ac mae’r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â staff a myfyrwyr.

### Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol

Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn arwain ar gyflawni strategaeth Sero Net 2040 a'r adrodd blynyddol yn erbyn y Strategaeth hon. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n cynnydd yn erbyn ein targedau a’r amryw gamau gweithredu a mentrau rydym wedi'u cwblhau i gefnogi'r agenda ehangach. Cyhoeddir yr adroddiad yn fewnol ac yn allanol ar y wefan i bobl ei weld. Rydym wedi ymrwymo i olrhain cynnydd yn y Brifysgol a darparu diweddariadau ar hyn yn flynyddol.

### Cydweithredu

Bydd y Tîm Cynaliadwyedd yn gweithio gydag amrywiaeth o dimau mewnol a phartneriaid allanol ar draws gwahanol brosiectau a mentrau i gyflawni lefel ehangach o ymgysylltu a chyrraedd amrywiol amcanion ymgysylltu. Bydd cydweithio mewnol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Fywyd Preswyl, Rheoli Gwastraff, Llesiant ac Ymyrraeth Gynnar a thimau academaidd amrywiol. Bydd cydweithio allanol yn canolbwyntio ar fusnesau bach a lleol i gefnogi twf economaidd lleol a rhanbarthol a chyflawni agweddau ar yr agenda ymgysylltu y mae arbenigwyr allanol yn eu cyflawni'n well. Mae'r rhain i gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Gweithdy Beicio Caerdydd, Gerddi Cymunedol Meadow Street a Siop Plant + Pot.

### Digwyddiadau

Bydd y Tîm Cynaliadwyedd yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i gyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn academaidd wedi'u hanelu at staff a myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys amserlen o ddigwyddiadau bioamrywiaeth a lles mewn cydweithrediad â Plant + Pot, cyfleoedd gwirfoddoli fel casglu sbwriel, plannu coed a chymorth yng Ngerddi Cymunedol Meadow Street. Ar ben hynny, cynigir cyfleoedd hyfforddi i staff a myfyrwyr fel Hyfforddiant Llythrennedd Carbon i'w gyflwyno mewn cydweithrediad â staff academaidd. Trefnir a hysbysebir digwyddiadau pellach drwy gydol y flwyddyn/blynyddoedd academaidd wrth i bartneriaethau pellach gael eu sefydlu ac wrth i dueddiadau ymgysylltu myfyrwyr a staff gael eu hadolygu.

### Ymsefydlu

Bydd yr holl staff a myfyrwyr yn cael sesiwn ymsefydlu cynaliadwyedd naill ai cyn cyrraedd y brifysgol neu o fewn y pedair wythnos gyntaf ar ôl cyrraedd/dechrau cyflogaeth.

Bydd staff yn derbyn y cyflwyniad Cynaliadwyedd fel rhan o'u deunyddiau ymsefydlu unwaith y bydd cynnig cyflogaeth wedi'i dderbyn. Mae'r cyflwyniad hwn yn cynnwys fideo byr yn manylu ar rôl Cynaliadwyedd yng ngweithrediadau'r brifysgol yn ogystal â manylu ar y ffyrdd i gymryd rhan, boed hynny drwy Grwpiau Gweithredu, cyfleoedd gwirfoddoli neu gyflwyno syniadau ar gyfer gwella i'r tîm Cynaliadwyedd. Bydd staff hefyd yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer platfform Trowch PDC yn Wyrdd drwy'r sesiwn ymsefydlu hwn.

Bydd myfyrwyr yn derbyn cyflwyniad Cynaliadwyedd drwy ddau lwybr. Y cyntaf yw ar gyfer myfyrwyr sy'n byw mewn llety ar y campws. Bydd y myfyrwyr hyn yn derbyn Pecyn Croeso gyda gwybodaeth am arbed ynni yn eu hystafelloedd/fflatiau, arferion gwaredu gwastraff priodol, cyfleoedd ymgysylltu cynaliadwyedd drwy gydol y flwyddyn academaidd a Trowch PDC yn Wyrdd. Yna bydd pob myfyriwr yn derbyn cyflwyniadau Cynaliadwyedd drwy ddarlithoedd yn eu hwythnosau cyntaf ar ôl ymrestru.

Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno gan staff academaidd ac arweinwyr cwrs gan ddefnyddio deunyddiau a gyda chefnogaeth gan y tîm Cynaliadwyedd. Bydd y pynciau a drafodir yr un fath ag ar gyfer y myfyrwyr sy'n byw mewn llety ar y campws ond byddant hefyd yn cynnwys gwybodaeth fel rheoli gwastraff wrth fyw oddi ar y campws, boed mewn llety myfyrwyr preifat a reolir, cartrefi teuluol, neu fathau eraill o dai.

Bydd yr holl staff a myfyrwyr yn cael eu hannog i ymgysylltu â'r tîm Cynaliadwyedd fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

Bydd unrhyw bolisïau neu strategaethau newydd neu wedi'u diweddaru ar gyfer adroddiadau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn cael eu cyhoeddi ar y tudalennau gwe sydd ar gael i'r cyhoedd a byddant yn cael eu cyhoeddi drwy'r rhwydweithiau staff a myfyrwyr mewnol.

## Cyllideb

Bydd cyfran o'r gyllideb Cynaliadwyedd flynyddol yn cael ei neilltuo i Ymgysylltu â Chynaliadwyedd bob blwyddyn. Bydd y gyllideb hon yn cwmpasu gweithgareddau a mentrau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Trowch PDC yn Wyrdd, digwyddiadau Plant + Pot a gweithgareddau'r Wŷl Groeso.

# Cynllun Gweithredu

| Maes | Cynllun Gweithredu | Dyddiad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Ymgyrchoedd | Ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol:<br><br>Cyflwyno ymgyrchoedd sy'n cyrraedd staff a myfyrwyr i annog a hyrwyddo gweithgareddau cynaliadwy.<br><br>Enghreifftiau – Rhaglen o weithgareddau cynaliadwyedd, hyrwyddiad Trowch PDC yn Wyrdd, ymgyrchoedd Bydd Wych, Ailgylcha. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Tîm Cynaliadwyedd |
| Digwyddiadau | Stondinau Croeso – Bydd yr Wythnos Groeso yn cael ei defnyddio i hysbysu myfyrwyr am y cyfleoedd a'r mentrau cynaliadwyedd sy'n bodoli yn y Brifysgol. I'w gefnogi gan gynrychiolwyr gweithredwyr platfform Trowch PDC yn Wyrdd. | Medi 2025<br>Medi 2026 | Tîm Cynaliadwyedd<br>Tîm Jump |
| | Digwyddiadau wedi'u trefnu gyda gweithgareddau ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwirfoddoli fel casglu sbwriel, grwpiau bioamrywiaeth. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Tîm Cynaliadwyedd<br>Staff Academaidd<br>Llesiant ac Ymyrraeth Gynnar<br>Bywyd Preswyl |
| | Amserlen o weithdai seiliedig ar blanhigion yn canolbwyntio ar lesiant, bioamrywiaeth ac uwchsgilio mewn cydweithrediad â busnesau bach lleol. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Tîm Cynaliadwyedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trowch PDC yn Wyrdd | Defnyddio Ap Gwobrau Gwyrdd i hyrwyddo gweithredoedd gwyrdd ac ymddygiad cynaliadwy. Dyfernir gwobrau i'r cyfranogwyr sy'n sgorio uchaf bob mis.<br><br>Cylchlythyrau wedi'u targedu i ddefnyddwyr i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau ehangach.<br><br>Cynyddu cyhoeddusrwydd ynghylch Trowch PDC yn Wyrdd, gan gynnwys llwyddiannau ac astudiaethau achos.<br><br>Archwilio cyfleoedd ar gyfer cystadlaethau rhwng neuaddau preswyl (trwy GI, monitro ynni, Fflatiau Gwyrdd) | Parhaus | Partner busnes Jump Tîm Cynaliadwyedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Partneriaid | Sesiynau Dr Bike – Gall myfyrwyr a staff fanteisio ar MOT beic am ddim ar y campws i annog teithio cynaliadwy. Mae hyn yn cefnogi amcanion ehangach Cynllun Teithio PDC.<br><br>Plant + Pot – Busnes bach lleol yng Nghaerdydd sy'n darparu gweithdai gofal planhigion i staff a myfyrwyr gyda ffocws ar fioamrywiaeth a lles<br><br>Gerddi Cymunedol Meadow Street – gardd a ariennir gan y cyngor lleol yn Nhrefforest sy'n rhoi'r cyfle i gyfrannu at y gymuned leol, cynorthwyo aelodau'r gymuned ag anghenion addysgol neu gorfforol. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Tîm Cynaliadwyedd |
| Hyfforddiant | Llythrennedd Carbon – Cydlynu hyrwyddo'r hyfforddiant Llythrennedd Carbon am ddim a gynigir drwy Prme y Cenhedloedd Unedig i staff a myfyrwyr. Mae hyn yn cael ei gynnig sawl gwaith y flwyddyn.<br><br>Prosesau ymsefydlu – Cynnwys cynaliadwyedd ym mhrosesau sefydlu staff a myfyrwyr a chadw'r rhain yn gyfredol.<br><br>Lle mae adnoddau'n caniatáu, cefnogi a hwyluso lleoliadau i fyfyrwyr weithio fel interniaid mewn cynaliadwyedd.<br><br>Hyrwyddo ac annog cyfleoedd i fyfyrwyr a staff gymryd rhan mewn gwirfoddoli a rhaglen o weithgareddau lles. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Tîm Cynaliadwyedd |
| Addysg Datblygu Cynaliadwy (ASD) | Ymgorffori ystyriaethau ADC yn egwyddorion dylunio cwricwlwm cwrs.<br><br>Mae ymgorffori ADC yn y cwricwlwm yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i asesu lle y gellir integreiddio hyn i ddeunyddiau astudio. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Ysgolion a Chyfadrannau Cefnogaeth gan y Tîm Cynaliadwyedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gynaliadwyedd | Parhau i gynnig cyllid ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd staff a myfyrwyr ar raddfa fach. Dylai derbynwyr posibl gyflwyno achosion i gyfeiriad e-bost y tîm cynaliadwyedd i'w hadolygu. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Tîm Cynaliadwyedd |
| Caffael | Datblygu Polisi Caffael Cynaliadwy i lywio strategaethau prynu ehangach.<br><br>Datblygu 'canllawiau prynwyr' ar gyfer offer TG cynaliadwy. | Blynyddoedd academaidd 2025/26, 2026/27 | Tîm Caffael/Tîm Cynaliadwyedd |
| Ymwybyddiaeth Cynaliadwyedd | Parhau i gynnal tudalennau gwe a sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol.<br><br>Lansio dangosfyrddau a rhannu data perfformiad carbon fesul cyfadran/adeilad (fel y bo data'n caniatáu).<br><br>Cynnwys gwybodaeth am gynaliadwyedd mewn prosesau ymsefydlu llety a hyrwyddo mewn pecyn croeso e.e. sebon Cymreig a chynnyrch lleol.<br><br>Adolygu cyfleoedd i ymgeisio am amrywiaeth o wobrau cynaliadwyedd a sicrhau gwelliant parhaus yn safleoedd cynghreiriau cynaladwyedd cenedlaethol e.e. People and Planet. | Parhaus | Tîm Cynaliadwyedd |

## Cyfrifoldebau

Mae'r strategaeth hon yn cael ei gweithredu, ei monitro a'i chydlynu gan dîm Cynaliadwyedd PDC gyda chydweithrediad a chefnogaeth gan adrannau, ysgolion a chyfadrannau eraill a'r timau Llety ac Undeb y Myfyrwyr yn ôl yr angen.

Mae unigolion o fewn yr Adran Ystadau yn gyfrifol am ddarparu cynnwys a chefnogi cyflwyno ymgyrchoedd yn eu meysydd arbenigol penodol.

Gwahoddir Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd, Grwpiau Ffocws a chynrychiolwyr eraill y Brifysgol i awgrymu syniadau a thrafod awgrymiadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu â'r tîm Cynaliadwyedd (e-bost sustainability@southwales.ac.uk).

Mae gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu hariannu drwy gyllideb refeniw bresennol y Tîm Cynaliadwyedd.

## Y Broses Adolygu

Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu’n flynyddol gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd, yn ystyried y Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r cynllun gweithredu, ac yng ngoleuni blaenoriaethau a chamau gweithredu sy'n newid.

Bydd cynnydd ar gyfathrebu ac ymgysylltu hefyd yn cael ei adrodd drwy Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol PDC, sy'n cael ei drafod a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd. Bydd yr Adroddiad hwnnw’n amlinellu cynnydd yn erbyn y targedau a gynhwysir yn y strategaeth Sero Net a'r cynllun gweithredu ategol.

# Atodiad

### Dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu – rhanddeiliaid mewnol

Mae'r rhestr hon yn disgrifio'r sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol (myfyrwyr a staff).

- Tudalennau gwe cynaliadwyedd
- Prosesau ymsefydlu staff a myfyrwyr (i'w datblygu)
- Cyfathrebu mewnol: stondinau dros dro, bwletinau newyddion mewnol, Connect, iTrent
- Cyfryngau cymdeithasol: Facebook, Twitter, twitter UM a Bywyd Preswyl
- Posteri ac arwyddion
- Rhaglen Archwilio Mewnol
- Grwpiau ffocws a chyfarfodydd
- E-byst Llety a llawlyfr Llety
- Trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau fel yr Ŵyl Groeso ac ymgyrchoedd
- Astudiaethau achos a thystiolaeth ysgrifenedig
- Addysgu a dysgu o fewn y cwricwlwm
- Platfformau dysgu ar-lein ar gyfer cyflwyniadau a hyfforddiant – e.e. Microsoft Teams

### Dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu – rhanddeiliaid allanol

- Prosbectysau
- Cyfryngau cymdeithasol
- Gwefan
- Straeon newyddion
- Tendrau caffael
- Digwyddiadau Gwobrau PDC
- Ymrwymiadau siaradwyr gwadd allanol
- E-bost
- Astudiaethau Achos



This document is available in